

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023/24



Technoleg Iechyd Cymru  
Health Technology Wales

# CYNNWYS



Ein partneriaid:



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Prifysgol Felindre  
Velindre University  
NHS Trust



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

3	Rhagair
4	Cynllun Strategol
<b>5</b>	<b>Nodi</b>
5	Nodi pynciau
6	Map ffordd ar gyfer arloesi
7	Ysgogi arloesedd mewn deallusrwydd artifisial (AI)
8	Astudiaeth achos nodi
<b>10</b>	<b>Arfarnu</b>
11	Egluro arfarnu pwnc
12	Effaith canllawiau
13	Ein canllawiau
15	Astudiaeth achos arfarnu
<b>22</b>	<b>Mabwysiadu</b>
22	Archwiliad mabwysiadu canllawiau HTW
23	Astudiaeth achos mabwysiadu
24	Cymorth tystiolaeth HTW I grwpiau cenedlaethol
<b>25</b>	<b>Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI)</b>
25	Uchafbwyntiau PPI
26	Astudiaeth achos PPI
27	Cyhoeddiadau PPI
<b>28</b>	<b>Ymgysylltu</b>
28	Cydweithio â phartneriaid yn 2023/24
29	Ein rôl fel partner cydweithredol
30	Codi ein profil
31	Safbwynt byd-eang
<b>32</b>	<b>Ein Tîm</b>
<b>33</b>	<b>Gyllideb</b>

# RHAGAIR

## Croeso i Adroddiad Blynyddol Technoleg Iechyd Cymru (HTW) sy'n disgrifio'r gwaith rydym wedi'i wneud yn ystod 2023-24.

Eleni rydym wedi cydbwysu ein hymrwymiaidau i ddewis, arfarnu a hyrwyddo mabwysiadu technolegau newydd, seiliedig ar dystiolaeth, nad ydynt yn gyffuriau, gyda chymryd rolau newydd i gefnogi'r ecosystem arloesi a thechnoleg feddygol yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom ystyried 66 o atgyfeiriadau pwnc newydd a chyhoeddi 11 o ganllawiau cenedlaethol HTW newydd, a oedd yn mynd i'r afael â phynciau'n amrywio o [offer asesu digidol](#) i [lawfeddygaeth gyda chymorth robot](#) a [rhaglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd](#). Ers 2017 mae HTW wedi cyhoeddi 44 o ganllawiau seiliedig ar dystiolaeth a 245 o Adroddiadau Archwilio Pwnc. Mae [adroddiad archwiliad 2022-23](#) yn nodi bod lefel uchel o ymwybyddiaeth o ganllawiau HTW yn GIG Cymru a bod canllawiau HTW yn cael effaith sylweddol ar wneud penderfyniadau.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r [chwe Blaenoriaeth y Gweinidog](#) yn GIG Cymru, datblygodd HTW ei brosesau nodi a blaenoriaethu pynciau yn ystod 2023-24 a chanolbwyntiodd ar chwilio am bynciau technoleg y mae sefydliadau HTA yn rhyngwladol yn mynd i'r afael â nhw ac a allai fod yn berthnasol ac o ddiddordeb i'r sectorau iechyd a gofal yng Nghymru. Drwy ymgysylltu â rhwydweithiau clinigol ac arweinwyr polisi, rydym wedi nodi'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'r Blaenoriaethau'r Gweinidog a byddwn nawr yn mynd ati i ddethol ac asesu'r rhain yn fanylach.

Yn ystod 2023-24 cyfrannodd HTW, fel partner cydweithredol, at ddatblygu a gweithredu'r cynllun peilot [Llwybr Mynediad at Ddyfeisiau Arloesol \(IDAP\)](#), menter genedlaethol sydd â'r nod o hyrwyddo technolegau meddygol trawsnewidiol sy'n mynd i'r afael ag anghenion clinigol sydd heb eu diwallu yn y GIG.

Er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â chylch bywyd llawn technolegau meddygol, ymgysylltodd HTW â Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Cymru Gyfan (AWCEG) a oedd newydd ei ffurfio. Gwaith AWCEG yw nodi ymyriadau a gynhelir yng Nghymru ond sydd, yn ôl dystiolaeth, yn ymyriadau gwerth isel o ran effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd. Mae HTW yn darparu adolygiadau o dystiolaeth a chrynodebau i'r grŵp er mwyn sicrhau bod ganddo fynediad at y wybodaeth gyhoeddedig fwyaf cadarn a diweddaraf i seilio ei benderfyniadau arni.

Mae [Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd \(PPI\)](#) yn ganolog i bob agwedd ar ein gwaith. Yn ystod 2023-24 cafodd 13 o bynciau technoleg nad ydynt yn gyffuriau eu hystyried gan Grŵp Sefydlog PPI HTW. Yn y cyfamser, mae effaith Grŵp PPI HTW yn parhau i ledaenu y tu hwnt i Gymru trwy ei gyfraniad at waith [Rhwydwaith Rhyngwladol Asiantaethau ar gyfer Asesu Technoleg Iechyd \(INAHTA\)](#).

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn parhau i fod yn allweddol i lwyddiant HTW yn ystod 2023-24.



**Yr Athro Peter Groves**  
Cadeirydd  
Technoleg Iechyd Cymru



**Dr Susan Myles**  
Cyfarwyddwr  
Technoleg Iechyd Cymru

Fe wnaeth ymgysylltu lleol drwy [Fforwm Rhanddeiliaid HTW](#) helpu i arwain gwaith HTW i sicrhau ei fod yn parhau i fod o'r perthnasedd a'r gwerth mwyaf i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rydym wedi parhau i weithio'n agos â phartneriaid yng [Nghanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru \(HCRW\)](#) i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan arweinwyr y GIG a gofal cymdeithasol a Gweinidogion yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth orau sydd ar gael. Rydym wedi parhau i adeiladu ar gysylltiadau sydd eisoes wedi'u sefydlu â'r diwydiant gwyddorau bywyd trwy waith ein [Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant](#) a chydweithio â [Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru](#) a [Chomisiwn Bevan](#).

Yn ystod 2023-24 llwyddodd HTW i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn y [Cynllun Strategol pum mlynedd a gyhoeddwyd yn 2021](#) a pharhaodd i ddatblygu ei weledigaeth i ddod yn sefydliad HTA o'r radd flaenaf. Rydym yn gobeithio y gwnewch fwynhau darllen yr adroddiad blynyddol hwn ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi i wireddu ein gweledigaeth.

# CYNLLUN STRATEGOL 2021-2025

## Gwell Iechyd – Ysgogir gan Dystiolaeth

Mae Cynllun Strategol 2021-2025 HTW yn nodi nodau ac amcanion strategol uniongyrchol, tymor canolig a hirdymor y sefydliad.

**GWELEDIGAETH:** Datblygu sefydliad HTA o'r radd flaenaf sy'n hwyluso'r gwaith o nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd sy'n cynnig y mwyaf o addewid i sicrhau gwell canlyniadau iechyd a gwerth i bobl Cymru.

**CENHADAETH:** Ysgogi gwelliannau yng ngwasanaethau iechyd a gofal y boblogaeth drwy ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd priodol o dechnolegau iechyd yng Nghymru.

Mae cyflawniadau allweddol wrth gyflawni ein hamcanion blaenoriaeth ar gyfer 2023/24 wedi'u nodi isod:

### Ehangu ymdrechion HTW i adnabod, blaenoriaethu a dewis pynciau

- Adolygwyd y Gronfa Ddata HTA Ryngwladol i nodi technolegau iechyd sy'n cyd-fynd â chwe blaenoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol y Gweinidog Llywodraeth Cymru
- Lluniwyd rhestr fer o 10 o gyhoeddiadau perthnasol o gronfa ddata INAHTA a ddosbarthwyd yn feysydd blaenoriaeth y Gweinidog
- Gweithiwyd mewn partneriaeth agos â rhwydweithiau clinigol a pholisi ledled Cymru i nodi pynciau newydd ar gyfer arfarnu tystiolaeth

### Cynnal y cynnydd mewn allbwn arfarnu tystiolaeth a chanllawiau HTW

- Cyhoeddwyd 11 canllaw yn 2023/24
- Aeth 10 pwnc ymlaen i'r cam arfarnu tystiolaeth
- Cyhoeddwyd 30 o Adroddiadau Archwilio Pwnc (TER)

## Cefnogi gwneud penderfyniadau polisi iechyd a gofal cymdeithasol sy'n hollbwysig o ran amser

- Rydym wedi parhau i gynnal adolygiadau cyflym o dystiolaeth fel Partner Cydweithredol Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cyfranogwyd fel rhan o Dîm Arfarnu Penodol Technoleg (TSET) yn Nyfarniad Deallusrwydd Artiffisial y GIG gan arfarnu ymchwil ar gyfer dau brosiect technoleg deallusrwydd artiffisial
- Darparwyd rôl cefnogi tystiolaeth allweddol i Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Cymru Gyfan (AWCEG) wrth adolygu polisïau presennol Ymyriadau Nas Cyflawnir Fel Arfer (INNU) sydd gan fyrrdau iechyd Cymru

## Cyflwyno swyddogaeth archwilio mabwysiadu technoleg a threialu'r broses archwilio mabwysiadu ar gyfer canllawiau technolegau meddygol NICE

- 11 canllaw HTW a thri canllaw NICE wedi'u harchwilio fel rhan o Archwiliad Mabwysiadu 2022/23 HTW
- Annog cyfraddau ymateb gyda chyfranogiad gan 6 bwrdd iechyd lleol a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Ymatebion yn nodi bod ymwybyddiaeth o ganllawiau HTW yn uchel (70%), eglurder argymhellion canllawiau HTW yn dda (83%), a bod canllawiau HTW yn cael rhyw fath o effaith yn y rhan fwyaf o achosion (72%)

## Gwella a chyhoeddi dulliau a phrosesau HTW

Cyhoeddi Arweiniad i Broses Arfarnu HTW a dogfen grynodedb



# NODI PYNCIAU


66

Pynciau a gynigiwyd i HTW yn 2023/24


493

Pynciau sydd wedi'u cynnig i HTW ers 2017

## Ffynhonnell atgyfeiriadau pynciau yn 2023/24



## Dadansoddiad o'r pynciau a atgyfeiriwyd o'r GIG yn 2023/24



Rydym wedi cynhyrchu animeiddiad i esbonio'r meini prawf sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno pwnc i'w arfarnu. I ddarganfod mwy gwylwch ein hanimeiddiad [yma](#).

# MAP Ffordd ar Gyfer Arloesi

**Nod y Llwybr Mynediad ar Ddyfeisiau Arloesol (IDAP) yw dod â thechnolegau meddygol trawsnewidiol i'r farchnad er mwyn mynd i'r afael ag anghenion clinigol sydd heb eu diwallu yn y GIG.**

Fe'i cyflwynir gan gydweithrediad DU eang o sefydliadau partner sy'n cynnwys Technoleg Iechyd Cymru, yr [Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), [Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd](#), [GIG Lloegr](#), y [Swyddfa Gwyddorau Bywyd](#), y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal](#) a [Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban](#).

Nod IDAP yw creu map ffordd i gefnogi arloeswyr i gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i gael cymeradwyaeth reoleiddiol, asesiad technoleg iechyd a hwyluso mynediad cleifion.

Ym mis Medi 2023 lansiodd menter beilot IDAP a gwahodddwyd arloeswyr i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb i gael mynediad i'r llwybr. Denodd y fenter ddiddordeb mawr gan dderbyn 81 o geisiadau.

Arfarnwyd yr holl ymgeiswyr cymwys gan y sefydliadau partner ochr yn ochr â chlinigwyr y GIG a chynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd. Wrth asesu'r ceisiadau ystyriwyd nifer o ffactorau gan gynnwys y potensial i ddiwallu angen sydd heb ei ddiwallu a mynd i'r afael ag un o [Genadaethau Gofal Iechyd Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd](#), natur drawsnewidiol ac arloesol y ddyfais a'r tebygolrwydd y bydd yn darparu ateb a fydd yn cael ei fabwysiadu'n eang.

Gwahodddwyd wyth technoleg i ymuno ag IDAP, yn amrywio o ddyfais sy'n ceisio nodi a dinistrio tiwmorau canser yr afu gan ddefnyddio tonnau uwch-sain â ffocws, i brawf gwaed ar gyfer

Clefyd Alzheimer ac ap blinder Sglerosis Ymledol.

Bydd partneriaid IDAP nawr yn gweithio gyda'r cwmnïau i ddatblygu Proffil Datblygu Targed sy'n darparu map ffordd cyn-farchnad pwrpasol ar gyfer y dechnoleg gan gynnwys ymgysylltu ag offer cymorth IDAP eraill.

Gallwch ddarganfod mwy am yr wyth technoleg a ddewiswyd i ymuno ag IDAP [yma](#).

Nod y fenter beilot IDAP oedd profi prif elfennau'r llwybr a darparu dysgu llawn gwybodaeth ac adborth a fydd yn cael eu defnyddio i helpu i adeiladu'r IDAP yn y dyfodol.

Bydd y mewnwelediadau a gafwyd yn ystod y cyfnod peilot yn hanfodol i lywio cyfeiriad y llwybr IDAP newydd yn y dyfodol.



Mae hyn yn rhoi cyfle arbennig i dechnolegau iechyd gyrraedd cleifion a chlinigwyr yn gyflymach. Edrychaf ymlaen at weld yr effaith a gaiff y technolegau hyn wrth iddynt fynd i'r afael ag anghenion clinigol sydd heb eu diwallu yng Nghymru a ledled y DU.

Credwn fod gan Gymru ran allweddol i'w chwarae mewn cefnogi'r llwybr newydd hwn a gobeithio y bydd y prosiect blaengar yn paratoi'r ffordd ar gyfer mabwysiadu technolegau mwy arloesol er budd pobl Cymru.



**Eluned Morgan MS**

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

# YSGOGI ARLOESED D MEWN DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL (AI)

Mae HTW yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol ac arloesi i gefnogi datblygiad technolegau AI arloesol i'w defnyddio yng Nghymru.

Mae ar flaen y gad o ran datblygu fframweithiau ar gyfer arfarnu technolegau iechyd a gofal AI ac mae'n gweithio ar sawl prosiect gyda'r nod o nodi'r heriau a'r cyfleoedd y mae technoleg AI yn eu cyflwyno.

Mae'r rhain yn cynnwys:

## Y Deallusrwydd Artiffisial yng Nghomisiwn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Cafodd y comisiwn newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nodau canlynol:

- ▶ Dyfnhau ein dealltwriaeth o anghenion AI
- ▶ Gwellu dealltwriaeth sefydliadol o'r gofynion sy'n bodoli ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel ein bod yn defnyddio AI fel offeryn i ateb y cwestiynau cywir:
  - Beth sydd wedi atal AI rhag cael ei fabwysiadu fwy?
  - Beth allwn ni ei gyflawni sy'n cefnogi mabwysiadu AI yn effeithiol?
  - Beth yw'r materion mawr sydd angen eu datrys?
- ▶ Mapio'r ecosystem bresennol  
Datblygu gwell dealltwriaeth o'r bensaerniaeth ehangach a all gefnogi a galluogi cyflwyno AI moesegol.
- ▶ Galluogi AI diogel a moesegol  
Mae sicrhau bod AI yn cael ei mabwysiadu'n ddiogel ac yn foesegol yn greiddiol i ddiben y comisiwn.


Gwahoddwyd HTW i ymuno â'r comisiwn yn 2023 ac mae'n rhan o weithgor technegol sy'n cefnogi ei waith. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ar asesu a mabwysiadu AI ym maes iechyd a gofal yng Nghymru.

## Adolygiad cyflym o AI

Fel rhan o brosiect Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, cydweithiodd Prif Ymchwilydd HTW, Dr David Jarrom ag Adolygiad Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal ymchwil o'r enw: "Adolygiad cyflym yn archwilio effeithiolrwydd deallusrwydd artiffisial ar gyfer diagnosis cancer." Edrychodd Dr Jarrom a'i dîm ar yr adolygiad tystiolaeth gan gymheiriaid a gweithio gydag adolygwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu dulliau ar gyfer arfaenu ymchwil yn benodol ar AI.

## Arfarniadau AI

Mae HTW ar fin cynnal dau arfarniad pilot o dechnoleg deallusrwydd artiffisial. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym wedi datblygu rhestr wirio fewnol ar ystyriaethau AI-benodol ar gyfer HTA. Mae hyn wedi ennyn diddordeb gan gyrff HTA eraill a bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Blynyddol HTAi 2024 a gynhelir yn Seville.



# ARFANIAD AR GYFER DYFARNIAD AI MEWN IECHYD A GOFAL

## Beth wnaethom?

Yn 2021 ymunodd HTW â chonsortium sy'n cefnogi'r gwaith o brofi ac arfarnu technolegau deallusrwydd artiffisial ym maes iechyd a gofal, i gefnogi'r gwaith Arfarnu Dyfarniad Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Iechyd a Gofal (a elwir yn Dyfarniad AI). Nod y Dyfarniad AI oedd cyflymu'r gwaith o brofi ac arfarnu technolegau AI addawol y gellid eu defnyddio ym maes iechyd a gofal. Dros ddwy flynedd rydym wedi cefnogi ac arfarnu cynhyrchiad tystiolaeth ar ddwy dechnoleg AI benodol fel rhan o'r gwaith hwn.

## Gyda phwy?

Fe wnaethom ymuno â chonsortium gydag ymchwilwyr academiaidd o Ffowndri Gyfrifiadurol Prifysgol Abertawe a staff ymchwil TEC Cymru, a gwneud cais i ymuno â Grŵp Partneriaid Arfarnu Dyfarniad AI. Mae'r grŵp hwn yn gweithio gyda datblygwyr technoleg AI i gynnal arfarniadau empirig cadarn o'u technolegau, a chynorthwyo gydag ymchwil pellach. Mae 15 aelod o'r Grŵp Partneriaid Arfarnu, a'r consortium hwn yw'r unig un ohonynt sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

Drwy gydol 2022 a 2023 buom yn gweithio gyda dau ddatblygwr technoleg AI ar brosiectau ar wahân. Roedd un, a elwir yn arfarniad 'Cam 3', yn cynnwys adolygu'r dystiolaeth bresennol gan gymheiriaid a chynghori ar gasglu tystiolaeth barhaus. Mae ail arfarniad mwy manwl 'Cam 4' wedi cynnwys rhoi cyngor ar gyflwyno'r dechnoleg i nifer o safleoedd prawf, lle cynhaliwyd astudiaeth beilot. Yna arfarnodd y consortium y canlyniadau a gwneud argymhellion ar gyfer ymchwil pellach.

## Beth oedd yr ymateb?

Dyweddodd Dr Matthew Roach, Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe: "Mae Technoleg Iechyd Cymru wedi bod yn rhan hollbwysig o'n consortium. Mae ei waith ar arfarnu tystiolaeth ac economeg iechyd wedi bod yn hollbwysig, ac mae wedi ein helpu i ddeall anghenion a disgwyliadau defnyddwyr AI ym maes iechyd a gofal."

## Beth ddysgodd pobl?

Mae'r consortium yn cynnwys arbenigedd mewn gwyddor gyfrifiadurol, diogelwch deallusrwydd artiffisial ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ym maes technolegau digidol. Bu staff HTW yn ymwneud â chynghori ar ddatblygu ac arfarnu tystiolaeth ar effeithiolrwydd a chost effeithiolrwydd technolegau deallusrwydd artiffisial a sut mae angen addasu'r rhain yn benodol ar gyfer AI. Rydym hefyd wedi dysgu am y gwaith a wneir gan aelodau eraill o'r Grŵp Partneriaid Arfarnu, sy'n ein galluogi i rannu atebion arloesol a dysg gyda'n gilydd.

## Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

Dyweddodd Dr David Jarrom, Prif Ymchwilydd: "Mae gweithio ar y Dyfarniad AI wedi ein rhoi ar flaen y gad o ran ymchwil ar ddefnyddio technolegau AI ym maes iechyd a gofal, a dulliau arfer gorau o arfarnu'r ymchwil hwn, fel rhan o brosiect gwirioneddol amlddisygyblaeth. Rydym wedi dysgu llawer y gellir ei gymhwyso i'n harfarniadau ein hunain o ddeallusrwydd artiffisial, ac rydym eisoes yn rhoi'r gwersi hyn ar waith."



ASTUDIAETH ACHOS NODI

# NODI PYNCIAU GAN DDEFNYDDIO CRONFA DDATA RYNGWLADOL

## Beth wnaethom?

Ar 7 Chwefror 2023 amlinellodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [chwe blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru](#), gyda'r nod o fynd i'r afael â phwysau uniongyrchol ac adeiladu gwasanaeth cynaliadwy. Adolygodd HTW y [Gronfa Ddata HTA Ryngwladol](#) i nodi technolegau iechyd addas sy'n cael eu harfarnu'n rhwngwladol sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau'r Gweinidog.

Mae'r gronfa ddata yn rhoi mynediad am ddim at wybodaeth am asesiadau technoleg iechyd sy'n mynd rhagddynt a gomisiynir neu a gynhelir gan sefydliadau asesu technoleg iechyd yn rhwngwladol. Daethom i'r casgliad y byddai adolygiad o'r gronfa ddata yn rhoi llwybr symlach i nodi pynciau addas i'w hystyried.

Roedd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar adolygu cyhoeddiadau o asesiadau technoleg iechyd cyflawn a gyhoeddwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Gwnaethom hidlo cyhoeddiadau yn unol â'r meini prawf canlynol:

- O leiaf crynodeb yn Saesneg
- Technoleg nad oedd wedi'i hadolygu'n ddiweddar gan y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#). Cynhwyswyd pynciau hŷn a adolygwyd gan NICE pe bai adolygiad NICE yn gwneud argymhellion ymchwil

- Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys cyfodiad cyflym neu systematig o dystiolaeth a oedd yn cymharu'r dechnoleg â chymharydd
- Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys ystyriaeth o economeg iechyd
- Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys argymhellion seiliedig ar dystiolaeth, neu fod gan yr asiantaeth oedd yn ymwneud â'r gwaith broses glir ynglŷn â sut y ddefnyddir dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau

Cynhyrchodd y broses hon restr fer o 10 cyhoeddiad HTA perthnasol a ddosbarthwyd i feysydd blaenoriaeth y Gweinidog Cymru:

Blaenoriaeth y Gweinidog	Nifer y Pynciau
Cyberthynas agosach rhwng y GIG a llywodraeth leol	0
Sicrhau bod gwasanaethau ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth ar gael yn haws	1
Gofal brys a gofal mewn argyfwng	0
Gofal ac adfer wedi'u cynllunio	5
Gwasanaethau canser	3
Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod	0
Dim	1
CYFANSWM	10

Roedd angen cymorth gan arbenigwyr pwnc arnom a allai roi cyngor i ni ynglŷn ag a oedd y pwnc yn debygol o fod yn bwysig yng Nghymru. Gwnaethom ddosbarthu'r pynciau a nodwyd gennym yn 'feysydd arbenigedd' a fu'n gymorth i ni ddod o hyd i arbenigwyr pwnc perthnasol.

## Gyda phwy?

Gwnaethom ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar bob un o'r 10 pwnc perthnasol a nodwyd. Ymgynghorwyd hefyd â rhwydweithiau clinigol ar gyfer saith o'r pynciau, gan gynnwys y Rhwydwaith Clinigol Canser, Rhwydwaith Iechyd Meddwl, Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol, a Rhwydwaith Iechyd Merched.

## Beth oedd yr ymateb?

Awgrymodd Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr o'r rhwydweithiau clinigol y dylai pob un o'r 10 pwnc gael eu harchwilio ymhellach ar ffurf Adroddiad Archwilio Pwnc HTW.

## Beth ddysgodd pobl?

Gall defnyddio adnoddau i nodi adolygiadau rhwngwladol y mae sefydliadau HTA eraill wedi'u blaenoriaethu a'u cynnal, arwain at bynciau a allai fod yn berthnasol i GIG Cymru na fyddem wedi'u hystyried fel arall.

# ARFARNU

**10** Pynciau a symudwyd ymlaen i gan arfarnu tystiolaeth yn 2023/24

**11** Canllawiau HTW a gyhoeddwyd yn 2023/24

**44** Canllawiau HTW sydd wedi'u cyhoeddi ers 2017

## Darganfod mwy

Hoffech chi ddarganfod mwy am broses arfarnu pynciau Technoleg Iechyd Cymru? Er mwyn codi ymwybyddiaeth o sut mae'r broses yn gweithio rydym wedi creu fideo ar ffurf animeiddiad: <https://www.youtube.com/watch?v=zzhe71aaw-l>

## CYMRYD RHAN

Wyddoch chi am dechnoleg neu fodel gofal a chymorth ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol y gallai Technoleg Iechyd Cymru ei arfarnu? Gall unrhyw un awgrymu pwnc ac rydym yn awyddus i dderbyn awgrymiadau gan bobl o ystod eang o gefndiroedd, gan gynnwys y cyhoedd.

I awgrymu pwnc llenwch ein ffurflen ar-lein yma.



Roedd hi'n ddefnyddiol iawn gweld prosesau HTW wrth symud o gwestiwn ymchwil cychwynol, i gyfosod tystiolaeth gynhwysfawr, i ddatblygu canllawiau.

**Patricia Harrington, Dirprwy Gyfarwyddwr, Asesu Technoleg Iechyd, Awdurdod Gwybodaeth ac Ansawdd Iechyd (HIQA)**



Fel meddyg iau sydd â diddordeb mewn arfarnu technolegau gofal iechyd, ymunais â chyfarfod y grŵp asesu i arsylwi'r trafodaethau ar asesu tystiolaeth. Roedd yn ddiddorol clywed gan arbenigwyr amrywiol o HTW a chynghorwyr annibynnol ar y dechnoleg yn y cyfarfod. Mwynheais wrando ar farn arbenigwyr ar y dystiolaeth sydd ar gael o safbwynt cost-efeithiolrwydd ac effeithiolrwydd clinigol, gan roi dealltwriaeth ddyfnach i mi o'r modd y creffir ar dechnolegau iechyd a ddefnyddiwn yn ymarferol cyn y cânt eu hargymell i'w defnyddio ar draws y GIG.

**Alexander Coombs, Meddyg Blwyddyn Sylfaen 2**



Roeddwn eisiau dweud diolch enfawr am adael i mi arsylwi'r cyfarfod heddiw. Roedd yn gyfle gwych i ddeall y broses, pwyntiau trafod allweddol, adborth arbenigol, a phwysigrwydd cyfranogiad/profiad cleifion – yn ogystal ag ehangder y pynciau a drafodwyd. Mae wir wedi fy helpu i symud o ddealltwriaeth ddamcaniaethol o'r theori o sut mae technoleg iechyd yn cael ei gweithredu yn y GIG, i ddealltwriaeth llawer mwy ymarferol, sy'n ddefnyddiol i mi wrth symud ymlaen yn fy hyfforddiant iechyd cyhoeddus.

**Dr Emily Clark, Cofrestrydd Arbenigol mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

# EGLURO ARFARNU PWNC: ARWEINIAD I BROSES ARFARNU HTW

Un o'n nodau craidd yw sicrhau y gall ein gwaith gael ei ddeall yn glir gan randdeiliaid. Mae hyn yn cynnwys; clinigwyr, darparwyr iechyd a gofal, pobl sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol, gweithgynhyrchwyr technoleg ac aelodau'r cyhoedd.

Er mwyn cyflawni hyn rydym wedi creu ystod o offer ac adnoddau, gan gynnwys arweiniadau ac animeiddiadau, sydd ar gael mewn fformatau hygyrch y gall cynulleidfa eang eu deall yn glir.

Yn 2023 cyhoeddwyd ein Arweiniad i'r Broses Arfarnu sy'n disgrifio sut yr ydym yn cynnal arfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod yr arweiniad yw rhoi crynodeb o'n dulliau a'n prosesau mewn fformat hygyrch, i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein gwaith.

Mae'n egluro'r broses a ddefnyddir gennym ar gyfer arfarniadau gan gynnwys:

- Cyflwyno a dewis testun cychwynnol
- Cynhyrchu Adroddiad Archwilio Pwnc
- Dewis pynciau ar gyfer gwaith pellach, ar ffurf Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth
- Cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth
- Cynhyrchu canllawiau



Mae'r arweiniad hefyd yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd ar ôl i arfarniad gael ei gynnal, sut yr ydym yn monitro effaith a chyfraddau

mabwysiadu ein canllawiau a'r amgylchiadau lle byddem o bosibl yn newid neu ddiweddarau canllaw.

Cyn cyhoeddi'r arweiniad gwnaethom gynnal arolwg ymgynghori a gwahodd rhanddeiliaid er mwyn iddynt roi adborth ar fersiwn ddrafft yr arweiniad a ymgorfforwyd gennym wedyn yn y fersiwn derfynol.

Mae crynodeb byrrach mewn iaith glir o'n proses arfarnu hefyd i'w weld ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth am ein proses arfarnu technoleg iechyd gwylwch ein fideo arfarnu pynciau ar ffurf animeiddiad yma.



# EFFAITH CANLLAWIAU

**493**  
Pynciau sydd wedi'u cynnig i HTW ers 2017

**65**  
Pynciau aeth ymlaen i'r cam arfarnu tystiolaeth

**44**  
Canllawiau cenedlaethol wedi'u cyhoeddi

## EIN HARGYMHELLION

Mae ein hargymhellion canllawiau cenedlaethol yn perthyn i dri phrif gategori:

### Mabwysiadu fel mater o drefn:

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu'r dechnoleg honno ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol


### Mabwysiadu dewisol:

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu'r dechnoleg honno mewn is-set benodol o'r boblogaeth yn gyffredinol


### Dim digon o dystiolaeth i gefnogi mabwysiadu:

Nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi mabwysiadu'r dechnoleg dan sylw

2023/24



2017-2024



# EIN CANLLAWIAU

## MAWRTH 2024 | [LIPOSUGNO AR GYFER TRIN LYMFFOEDEMA CRONIG](#)

Mae'r defnydd o liposugno ar gyfer trin lymffoedema cronig yn addawol, ond nid yw'r dystiolaeth bresennol yn cefnogi ei fabwysiadu fel mater o drefn yng Nghymru.

## MAWRTH 2024 | [YMYRIADAU ADBORTH FIDEO](#)

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu ymyriadau adborth fideo i gefnogi plant a'u teuluoedd sydd mewn perygl o niwed neu sy'n dioddef niwed. Mae gwelliannau mewn sensitifrwydd rhieni, rhyngweithio rhiant-plentyn ac ymlyniad wedi'u nodi gan ddefnyddio ymyriadau adborth fideo.

## MAWRTH 2024 | [RHAGLENNI DWYS I GADW TEULUOEDD GYDA'I GILYDD \(IFPP\)](#)

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu rhaglenni dwys i gadw teuluoedd mewn argyfwng gyda'i gilydd. Mae'r defnydd o raglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn lleihau'r risg o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'r cartref.

## IONAWR 2024 | [OFFER RHEOLI CLWYFAU DIGIDOL](#)

Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu y gall rhai systemau rheoli clwyfau digidol integredig fesur arwynebedd yn gywir, ond nid dyfnder na chyfaint, ar gyfer rhai clwyfau, ond nid pob un. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth ar sut mae'r technolegau hyn yn effeithio ar reolaeth glinigol a chanlyniadau cleifion.

## IONAWR 2024 | [BRACHYTHERAPI PELEDR-X CYSWLLT YNNI ISEL](#)

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu brachitherapi pelydr-x cyswllt (CXB) fel mater o drefn yn ogystal â chemoradiotherapi ar gyfer pobl â chanser rhefrol cam cynnar sy'n addas ar gyfer llawdriniaeth. Mae defnyddio hwb CXB yn cynyddu cyfraddau ymateb i driniaethau a chadwraeth organau ac yn lleihau'r angen am lawdriniaeth ddilynol o'i gymharu â hwb radiotherapi pelydr allanol.

## IONAWR 2024 | [LLAWFEDDYGAETH THORASIG GYDA CHYMORTH ROBOT](#)

Nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu llawfeddygaeth thorasig gyda chymorth robot fel mater o drefn. Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu canlyniadau clinigol cyfatebol ond ansicrwydd ynghylch unrhyw welliant mewn effeithiolrwydd clinigol llawfeddygaeth thorasig robotig yn y tymor byr a'r hirdymor o gymharu â gofal safonol (llawfeddygaeth thorasig agored neu drwy fideo).

# EIN CANLLAWIAU

## RHAGFYR 2023 | [OFFER ASESU SY’N CANOLBWYNTIO AR ATEBION \(DIALOG+\)](#)

Mae’r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu DIALOG+ fel mater o drefn ar gyfer pobl sy’n cael triniaeth ar gyfer seicosis a sgitsoffrenia mewn lleoliad iechyd meddwl eilaidd. Dangosir bod y defnydd DIALOG+ yn gwella ansawdd bywyd cyffredinol o’i gymharu â gofal safonol ond mae ei effaith ar symptomau seicolegol, bodlonrwydd â thriniaeth a mynd i’r afael ag anghenion iechyd a chymdeithasol yn parhau i fod yn ansicr.

## RHAGFYR 2023 | [SYNWRYDDION PWYSEDD RHYDWELIAU YSGYFEINIOL A FEWNBLANNIR DRWY’R CROEN](#)

Mae’r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy’r croen fel mater o drefn i fonitro triniaeth pobl â methiant cronig y galon dosbarth III Cymdeithas y Galon Efrog Newydd (NYHA) a/neu sydd wedi gorfod mynd i’r ysbyty oherwydd methiant y galon o fewn y 12 mis blaenorol.

## TACHWEDD 2023 | [PROSTHETEG AML-AFAEL YN Y BREICHIAU](#)

Mae’r dystiolaeth ar ddefnydd dyfeisiau prostheteg myodrydanol aml-afael yn y breichiau gan bobl sydd â gwahaniaeth yn y breichiau yn parhau i fod yn annigonol i gefnogi eu mabwysiadu fel mater o drefn. Mae manteision prostheteg myodrydanol aml-afael yn y breichiau o’i gymharu â mathau eraill o brostheteg ar gyfer gwahaniaeth yn y breichiau yn ansicr, a dylai eu defnydd presennol gael ei bennu gan ofynion cleifion unigol.

## MEDI 2023 | [SBECTOL A LENSYS CYFFWRDD I REOLI MYOPIA](#)

Mae’r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu orthoceratoleg a lensys cyffwrdd meddal amlffocal fel mater o drefn i arafu gwaethygiad myopia mewn plant a phobl ifanc. Mae dystiolaeth yn dangos bod orthoceratoleg a lensys cyffwrdd meddal amlffocal yn lleihau’n sylweddol waethygiad plygiant cyfwerth sferig ac estyniad hyd echelinol wedi o leiaf dwy flynedd o ddilyn i fyny.

## MEHEFIN 2023 | [DIFFIBRILWYR CARDIAIDD GWISGADWY](#)

Mae’r dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu diffibrilwyr cardiaidd gwisgadwy mewn rhai cleifion, ond nid pob un, sy’n oedolion ac yn wynebu risg uchel o farwolaeth cardiaidd sydyn. Ar gyfer cleifion sydd angen tynnu diffibrilwr cardiaidd mewnblanadwy a bod oedi cyn ailblannu, teimlir bod defnyddio diffibrilwyr cardiaidd gwisgadwy yn effeithiol yn glinigol ac o ran cost, ac mae HTW yn cefnogi eu defnydd ar gyfer hyn.

# ARFARNU TYSTIOLAETH AR SBECTOL A LENSYS CYFFWRDD RHEOLI MYOPIA I ARAFU GOLWG BYR MEWN PLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

## Beth wnaethom?

Ystyriodd HTW ddefnydd sbectol a lensys cyffwrdd rheoli myopia i arafu golwg byr rhag gwaethygu mewn plant a phobl ifanc. Gwnaethom arfarnu'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc hwn, cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, a chyhoeddi [Canllaw HTW](#) ym mis Medi 2023.

## Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc gan gynghorydd clinigol i'r GIG. Gwnaethom ymgysylltu â nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad hwn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan Lywodraeth Cymru, nifer o optometryddion, a chynghorwyr clinigol cenedlaethol ar gyfer optometreg.

## Beth oedd yr ymateb?

Roedd rhanddeiliaid yn credu bod yr adolygiad o ansawdd uchel. Roeddent yn teimlo bod y dystiolaeth briodol wedi'i hadolygu a bod y casgliadau'n adlewyrchu'r dystiolaeth. Croesawodd [Coleg yr Optometryddion](#) ganllaw HTW. Yn dilyn hyn fe wnaeth arbenigwyr a fu'n rhan o'r broses arfarnu gyd-ddatblygu erthygl mewn cyfnodolyn gwyddonol gyda HTW yn disgrifio'r dadansoddiad economaidd iechyd.

Dywedodd Andy Britton, Optometrydd Arbenigol a roddodd fewnbwn clinigol arbenigol i'r


arfarniad, "Roedd proses Technoleg Iechyd Cymru ar Reoli Myopia yn arfarniad cadarn o'r dystiolaeth bresennol ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwahanol ymyriadau. Fel rhywun a fu'n ymwneud â'r papur cychwynnol a arweiniodd at yr adroddiad hwn, roedd braf gweld yr holl broses yn cael ei chyflawni mor ddiwyd a phroffesiynol. Roedd y cyfle i fod yn rhan fel tyst arbenigol tua diwedd y broses hefyd yn werthfawr... ar y cyfan proses wych sy'n dod i gasgliad gwych a fydd yn y pen draw o fudd i blant Cymru."

## Beth ddysgodd pobl?

Gall orthoceratoleg a lensys cyffwrdd meddal amlfocal leihau gwaethygiad plygiant cyferth sfferig ac estyniad hyd echelinol wedi o leiaf dwy flynedd o ddilyn i fyny. Mae modelu economaidd yn amcangyfrif y gall orthoceratoleg a lensys cyffwrdd meddal amlfocal fod yn gost-effeithiol o'u cymharu â chywiro golwg sengl, wedi'i ysgogi gan ragdybiaeth o enillion ansawdd bywyd o ganlyniad i ostyngiad mewn gwaethygiad golwg byr hirdymor a'i gymhlethdodau.

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu dwy fath o lens, sef orthoceratoleg a lensys cyffwrdd meddal amlfocal fel mater o drefn, er mwyn arafu gwaethygiad golwg byr ymhlith plant a phobl ifanc.



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR SYNWRYDDION PWYSEDD RHYDWELIAU YSGYFEINIOL A FEWNBLANNIR DRWY'R CROEN I FONITRO TRINIAETH POBL Â METHIANT CRONIG Y GALON

## Beth wnaethom?

Ystyriodd HTW ddefnydd synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen i fonitro triniaeth pobl â methiant cronig y galon. Gwnaethom arfarnu'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc hwn, cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, a chyhoeddi [Canllaw HTW](#) ym mis Hydref 2023.

## Gyda phwy?

Nodwyd y pwnc yn dilyn chwiliad o ganllawiau ymyriadau'r [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#). Gwnaethom ymgysylltu â nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad hwn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan gardiolegyddion ymgynghorol sy'n gweithio yn GIG Cymru.

## Beth oedd yr ymateb?

Dyweddodd Ross Wardle, Pennaeth Mynediad i Farchnad y DU ac Iwerddon yn [Abbott Medical](#), "Mae ein profiad o weithio gyda HTW ar ddatblygu'r canllaw ar fewnblannu synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol drwy'r croen wedi bod yn un cadarnhaol iawn. Roedd cyfathrebu rheolaidd a thryloyw o'r cychwyn cyntaf yn ein galluogi i fwydo'n rhwydd i'r broses lle bo angen a sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried."

## Beth ddysgodd pobl?

Gall synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd methiant y galon a hefyd hyd arhosiad yn yr ysbyty, a gallant wella ansawdd bywyd. Awgrymodd arbenigwyr y gallai'r gyfradd waelodlin o dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru fod wedi'i thanamcangyfrif yn nadansoddiad cost a defnyddioldeb HTW, ac felly mae'n gredadwy bod synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen yn gost-effeithiol yn GIG Cymru.

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu fel mater o drefn synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen i fonitro triniaeth pobl â methiant cronig y galon dosbarth III Cymdeithas y Galon Efrog Newydd a/neu arhosiad yn yr ysbyty ar gyfer methiant y galon yn y 12 mis blaenorol. Dywedodd y Panel Arfarnu hefyd y dylai defnyddio synwryddion pwysedd rhydwelïau ysgyfeiniol a fewnblannir drwy'r croen yn GIG Cymru fod yn gysylltiedig â chasglu tystiolaeth o effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd yn y byd go iawn.



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR OFFER ASESU SY'N CANOLBWYNTIO AR ATEBION (DIALOG+) AR GYFER GWELLA'R DRINIAETH I BOBL Â SEICOSIS A SGITSOFFRENIA O FEWN GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

## Beth wnaethom?

Gwnaeth HTW ystyried offer asesu sy'n canolbwyntio ar atebion ar gyfer gwella'r driniaeth i bobl â seicosis a sgitsoffrenia o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Gwnaethom arfarnu'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc, cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, a chyhoeddi [Canllaw HTW](#) ym mis Rhagfyr 2023.

## Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc hwn gan nyrs ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gwnaethom ymgysylltu â nifer o grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan nyrsys a seicolegwyr clinigol, rheolwr [Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru](#) ac economegydd iechyd sydd â phrofiad yn y maes hwn.

## Beth oedd yr ymateb?

Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod yr adolygiad yn un o ansawdd uchel ac roedd ganddynt hyder yn null arfarnu HTW. Teimlent fod y dystiolaeth briodol wedi'i hadolygu a bod y broses yn gadarn.

Dywedodd cynigydd y pwnc, Norman Young, Nyrs Ymgynghorol, Arweinydd Gwasanaeth Clinigol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis, Headroom: "Mae DIALOG+ yn offeryn

sy'n cyfuno profiadau a chanlyniadau a adroddir gan gleifion yn ddiymdrech â dull therapiwtig sy'n canolbwyntio ar atebion. Wedi'i ddatblygu dros ddau ddegawd, mae gan DIALOG+ nid yn unig briodweddau seicometrig cadarn ond mae hefyd yn dangos canlyniadau clinigol gwell pan gaiff ei ddefnyddio mewn ymarfer arferol. Gan gydnabod ei botensial, cyflwynais DIALOG+ ar gyfer arfarniad annibynnol pan wahoddodd Technoleg Iechyd Cymru (HTW) bynciau. Cytunodd tîm HTW ar arfarniad economaidd a chlinigol cynhwysfawr a chynnal y gwaith. Fel cynigydd pwnc, roeddwn yn rhan weithredol ym mhob cam allweddol ac wrth adolygu'r adroddiad terfynol. Rwy'n argymhell yn llwyr y dylai unrhyw un sydd â phwnc addas fanteisio ar y cyfle i'w gyflwyno."

## Beth ddysgodd pobl?

Dangosodd yr adolygiad dystiolaeth y gall defnyddio offeryn asesu penodol sy'n canolbwyntio ar atebion, DIALOG+, wella ansawdd bywyd goddrychol o gymharu â gofal safonol. Roedd y dystiolaeth economaidd hefyd yn dangos bod DIALOG+ yn annhebygol o gynyddu costau iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol o gymharu â gofal safonol.

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu DIALOG+ fel mater o drefn ar gyfer pobl sy'n cael triniaeth ar gyfer seicosis a sgitsoffrenia mewn lleoliad iechyd meddwl eilaidd.



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR BRACITHERAPI PELYDR-X CYSWLLT (CXB) YNNI ISEL AR GYFER TRIN CANSER RHEFROL CAM CYNNAR

## Beth wnaethom?

Ystyriodd HTW y defnydd o bracitherapi pelydr-x cyswllt (CXB) ar gyfer trin cancer rhefrol cam cynnar. Math o hwb radiotherapi yw CXB, a roddir ochr yn ochr â radiotherapi neu cemoradiotherapi arferol. Fe'i rhoddir drwy diwb a osodir yn y rectwm. Ei nod yw gwella ansawdd bywyd a lleihau'r angen am lawdriniaeth a stoma. Gwnaethom arfarnu'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar y pwnc, cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth a [Chanllaw HTW](#) ym mis Ionawr 2024.

## Gyda phwy?

Cynigiwyd y pwnc hwn gan Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol ym [Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe](#). Gwnaethom ymgysylltu â [grŵp Cymorth Cleifion Papillon](#), [Tenovus](#) a [Rhwydwaith Cancer Cymru](#) i archwilio safbwyntiau cleifion ar ddiagnosis o ganser rhefrol a'r triniaethau sydd ar gael. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan oncolegwyr clinigol, llawfeddygon a gweithwyr ffiseg radiotherapi proffesiynol. Dywedodd cynigydd y pwnc fod y broses yn 'ddiwyd a thrylwyr iawn' a bod y 'cyfathrebu'n ardderchog ar bob cam'.

**Gwnaethom ymuno ag arbenigwyr a gymerodd ran yn ein harfarniad o bracitherapi pelydr-x cyswllt (CXB) ynni isel i ddatblygu erthygl mewn cyfnodolyn academiaidd y gellir ei darllen [yma](#).**

## Beth oedd yr ymateb?

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr adolygiad yn un o ansawdd uchel a theimlent fod y dystiolaeth briodol wedi'i hadolygu a chasgliadau wedi'u llunio. Croesawyd y canllaw gan yr arbenigwyr clinigol a fu'n rhan o'r broses a datblygwyd erthygl mewn cyfnodolyn gyda HTW i gyflwyno canfyddiadau'r arfarniad i gynulleidfa ehangach. Maent hefyd yn bwriadu rhannu'r canllaw â chydweithwyr clinigol mewn cyfarfodydd rhyngwladol yn 2024.

## Beth ddysgodd pobl?

Dangosodd yr adolygiad dystiolaeth fod y defnydd o hwb CXB yn cynyddu cyfraddau ymateb i driniaethau a chadwraeth organau o gymharu â hwb pelydr allanol ar gyfer pobl â chanser rhefrol sy'n addas ar gyfer llawdriniaeth. Awgrymodd modelu economaidd fod hwb CXB hefyd yn gost-effeithiol o gymharu â hwb pelydr allanol yn y boblogaeth hon.

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu CXB fel mater o drefn yn ogystal â chemoradiotherapi ar gyfer pobl â chanser rhefrol cam cynnar sy'n addas ar gyfer llawdriniaeth. Dywedodd Dr Craig Barrington, Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol ym [Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe](#) "Rwy'n teimlo bod casgliadau'r adroddiad yn newid ymarfer ar gyfer poblogaeth Cymru a gobeithio y bydd yn galluogi ein cleifion i gael mynediad at bob cyfle posibl i drin eu cancer rhefrol."



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR BROSTHETEG AML-AFAEL AR GYFER Y BREICHAU

## Beth wnaethom?

Gwnaethom gynnal arfarniad o brostheteg aml-afael ar gyfer y breichiau. Cynhyrnod HTW ganllaw ar y dechnoleg hon yn wreiddiol yn 2019. Cynigiwyd y pwnc gan [Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru](#), sydd bellach wedi dod yn Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Gwnaethom arfarnu'r dystiolaeth glinigol ac economaidd ar ddefnydd prostheteg myodrydanol aml-afael ar gyfer y breichiau ymhlith pobl â gwahaniaeth yn hyd y breichiau, cyhoeddwyd Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, ac ail-gyhoeddwyd [canllaw HTW](#) ym mis Medi 2023.

Roedd llawer o dystiolaeth newydd ar gael ers i ni arfarnu'r pwnc yn wreiddiol, gyda thystiolaeth yn cymharu prostheteg aml-afael â mathau eraill sydd bellach ar gael.

## Gyda phwy?

Gwnaethom ymgysylltu â nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad hwn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan glinigwyr sy'n ymwneud ym maes phrostheteg ac adsefydlu o bob rhan o Gymru ac o'r Alban, yn ogystal ag ymchwilwyr prostheteg.

## Beth oedd yr ymateb?

Meddai Dr Rachel Gemine, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tystiolaeth, Gwerthuso ac Effeithiolrwydd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru "Rhoddodd yr adroddiad gan HTW adolygiad tystiolaeth cynhwysfawr a oedd yn ein galluogi i flaenoriaethu adnoddau a sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau i bobl Cymru sydd angen prostheteg breichiau. Roedd y canllaw hwn yn cefnogi'r penderfyniad i barhau i asesu'n unigol y rheini a allai elwa gan brostheteg myodrydanol aml-afael."

## Beth ddysgodd pobl?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn parhau i fod yn annigonol i gefnogi mabwysiadu prostheteg myodrydanol aml-afael ar gyfer y breichiau fel mater o drefn. Ansicr yw manteision prostheteg myodrydanol aml-afael ar gyfer y breichiau o gymharu â mathau eraill o brostheteg, gan mai ychydig o wahaniaeth sydd yn aml yn y canlyniadau a adroddir, a dylai eu defnydd presennol gael ei bennu gan ofynion cleifion unigol.

Prin oedd y dystiolaeth ar gost-effeithiolrwydd ac ni allem gynnal ein modelu economaidd ein hunain. Fodd bynnag, mae tystiolaeth economaidd o'r Iseldiroedd yn awgrymu bod prostheteg myodrydanol aml-afael ar gyfer y breichiau yn annhebygol o fodloni trothwyon cost-effeithiolrwydd y GIG.



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR RAGLENNI DWYS I GADW TEULUOEDD GYDA'I GILYDD

## Beth wnaethom?

Ystyriodd HTW y dystiolaeth ar raglenni dwys i gadw teuluoedd gyda'i gilydd (IFPP) ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng lle mae risg uniongyrchol i blant orfod cael eu rhoi mewn gofal. Ymyriadau dwys tymor byr yw'r rhaglenni hyn lle mae gweithiwr cymdeithasol yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd i ddatrys argyfyngau a darparu cymorth i wella sgiliau a gwytnwch. Mae hefyd yn darparu cysylltiadau â gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru, gyda'r nod yn y pen draw o atal plant rhag cael eu rhoi mewn gofal.

Gwnaethom arfarnu tystiolaeth effeithiolrwydd ac economaidd ar y pwnc hwn, cynhyrchwyd Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, a chyhoeddwyd [Canllaw HTW](#) ym mis Mawrth 2024.

## Gyda phwy?

Gwnaethom ymgysylltu â nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad hwn gan gynnwys cynrychiolwyr o Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol yng Nghaerdydd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cawsom adborth gan academyddion ym maes ymchwil gofal cymdeithasol, seicolegwyr addysg, cymrodryr ymchwil, ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

## Beth ddysgodd pobl?

Daeth Panel Arfarnu HTW i'r casgliad bod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu IFPP ar gyfer teuluoedd mewn argyfwng. Mae defnyddio IFPP yn lleihau'r risg o leoli plant y tu allan i'r cartref. Mae safbwyntiau rhieni a phlant yn cefnogi'r farn bod IFPP yn fuddiol ac yn gallu mynd i'r afael ag argyfyngau a allai beri risg o blentyn yn gorfod cael ei roi mewn gofal. Er bod y dystiolaeth yn gadael rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith hyn ar les emosiynol ac ymddygiadol plant, mae'n ymddangos nad oes unrhyw dystiolaeth o niwed. Roedd y dadansoddiad economaidd yn gysylltiedig ag ansicrwydd ond mae'n dangos y potensial ar gyfer arbedion cost o hyd at £12,171 y plentyn drwy ddefnyddio IFPP, yn bennaf oherwydd osgoi lleoliad y tu allan i'r cartref.

## Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?

Dylid cynnig IFPP i deuluoedd ar adeg o argyfwng, gan fod canfyddiadau'n awgrymu ei fod yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn lleoli y tu allan i'r cartref a gall gadw plant o fewn yr uned deuluol. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai IFPP fod yn gysylltiedig â gostyngiad mewn trallod a chamddefnyddio sylweddau ymhlith rhieni. Mae safbwyntiau rhieni a phlant yn cefnogi'r syniad bod IFPP yn fuddiol ac yn gallu helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau a allai beri risg bod plentyn yn gorfod mynd i ofal. Fodd bynnag, mae rhieni'n mynegi pryderon ynghylch natur orfodol IFPP ac yn cwestiynu pam na ellid darparu gwasanaethau mwy dwys cyn i argyfyngau godi. Cydnabyddir hefyd bod cyfyngiadau ar gapasiti yn y gwasanaethau cymdeithasol a bod hyn yn rhwystr posibl i weithrediad yr ymyriad.



# ARFARNU TYSTIOLAETH AR YMYRIADAU ADBORTH FIDEO

## Beth wnaethom?

Arfarnodd Technoleg Iechyd Cymru y dystiolaeth a chynhyrchodd ganllaw i gefnogi mabwysiadu ymyriadau adborth fideo (VFI) i gefnogi plant a'u teuluoedd sydd mewn perygl o niwed, neu sy'n dioddef niwed. Mae cam-drin plant yn cael effaith ddofn ar les plant ac o bosibl effaith gydol oes ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol y plentyn. Gall rhaglenni rhianta sy'n ymweld â chartrefi, gan gynnwys VFI ar gyfer teuluoedd sydd mewn perygl, leihau nifer yr achosion a'r risg o gamdriniaeth. Mae VFI yn derm ymbarél sy'n cyfeirio at y defnydd o adborth fideo wedi'i recordio yn ystod sawl sesiwn. Mae gan yr ymyriad enwau eraill sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Ganllawiau Rhyngweithio Fideo (VIG) ac Ymyrraeth Adborth Fideo i Hyrwyddo Rhianta Positif (VIPP).

Gwnaethom arfarnu tystiolaeth effeithiolrwydd ac economaidd ar y pwnc hwn, cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth (EAR), a chyhoeddi canllaw HTW ym mis Mawrth 2024.

## Gyda phwy?

Gwnaethom ymgysylltu â nifer o wahanol grwpiau rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r arfarniad hwn gan gynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, CASCADE a Chyngor Caerdydd.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cawsom adborth gan academyddion ym maes ymchwil gofal cymdeithasol, seicolegwyr addysg, cymrodwr ymchwil ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

## Beth ddysgodd pobl?

Argymhellodd Panel Arfarnu HTW fod y dystiolaeth yn cefnogi mabwysiadu ymyriadau adborth fideo i gefnogi plant a'u teuluoedd sydd mewn perygl o niwed, neu'n dioddef niwed. Mae gwelliannau mewn sensitifrwydd rhieni, rhyngweithio rhiant-plentyn a ymlyniad wedi'u nodi gan ddefnyddio ymyriadau adborth fideo. Mae effaith ymyriadau adborth fideo ar leoliadau y tu allan i'r cartref a chanlyniadau tymor hwy yn ansicr. Mae rhieni a ddefnyddiodd ymyriadau adborth fideo yn adrodd am welliannau mewn cydberthynas deuluol a hyder rhieni. Mae ansicrwydd ynghylch effaith ymyriadau adborth fideo ar leoliadau y tu allan i'r cartref yn trosi'n ansicrwydd yng nghostau ymyriadau adborth fideo o gymharu â gofal safonol. Daeth y Panel Arfarnu i'r casgliad, fodd bynnag, fod y dystiolaeth i gefnogi buddiannau ymyriadau adborth fideo yn cyfiawnhau unrhyw gynnydd posibl mewn costau ac nad yw'r dystiolaeth economaidd yn atal mabwysiadu.

## Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?

Mae ymyriadau cynnar ar ffurf rhaglenni rhianta ymweliadau cartref sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau i blant ac atal risg rhag gwaethygu, wedi'u hamlygu mewn canllawiau diogelu cenedlaethol ar draws y DU. Gall nodi a mynd i'r afael ag anghenion teulu yn gynnar leihau ffactorau risg a all fod yn effeithio'n negyddol ar fywyd plentyn. Gall mabwysiadu VFI ym maes gofal cymdeithasol gael effaith gadarnhaol ar sensitifrwydd rhieni, rhyngweithio rhiant-plentyn, ymlyniad, a phenderfyniadau i leoli plant. Gallai VFI hefyd gyfrannu o bosibl at y gostyngiad mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref, er y byddai panel arfarnu HTW yn annog casglu data pellach i gefnogi'r ymyriad hwn.



Mae'n bwysig ein bod yn deall y ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi plant a theuluoedd sydd mewn perygl o niwed, felly roeddwn yn falch iawn o gael gwahoddiad i gyfrannu i'r arfarniad o Ymyriadau Adborth Fideo mewn gofal cymdeithasol. Mewn sawl ffordd mae Technoleg Iechyd Cymru yn mabwysiadu credoau canolog Ymyriadau Adborth Fideo gan fod gweithio gyda'r sefydliad yn brofiad gwerth chweil sy'n seiliedig ar gryfderau. Rwy'n gobeithio y bydd eu harfarniad yn arwain at ddefnydd cynyddol o Ymyriadau Adborth Fideo, yn enwedig gan fod plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn hoffi'r dull seiliedig ar gryfderau hwn.

**Nina Maxwell Cyd-Arweinydd Arbenigedd Gofal Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Phrif Gymrawd Ymchwil, CASCADE, Prifysgol Caerdydd**

# ARCHWILIAD MABWYSIADU CANLLAWIAU HTW

**Rydym yn cynnal archwiliad mabwysiadu blynyddol i ganfod a yw argymhellion ein canllawiau cenedlaethol wedi cael eu dilyn ledled Cymru.**

Cynhelir yr archwiliad mabwysiadu ar y cyd â phartneriaid ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n canolbwyntio ar ganllawiau HTW a [Rhaglen Arfarnu Technolegau Meddygol \(MTEP\) NICE](#).

Mae pob adroddiad mabwysiadu yn crynhoi sut y defnyddiwyd canllawiau HTW ac unrhyw hwyluswyr a rhwystrau i'w mabwysiadu.

Datgelodd ein harchwiliad yn 2023 fod ymwybyddiaeth ac effaith canllawiau HTW yn uchel a bod hynny'n digwydd ledled Cymru.

Canolbwyntiodd yr archwiliad ar 11 o ganllawiau HTW a thri chanllaw MTEP NICE.

Roedd cyfraddau ymateb i'r archwiliad yn galonogol gydag ymatebion gan chwech o'r saith bwrdd iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC).

## **Roedd canfyddiadau allweddol Adroddiad Archwiliad Mabwysiadu 2022/23 yn cynnwys:**

- ▶ Mae ymatebion gan sefydliadau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt yn nodi bod ymwybyddiaeth o ganllawiau HTW yn uchel (70%), eglurder argymhellion canllawiau HTW yn dda (83%), ac mae canllawiau HTW yn cael rhyw fath o effaith yn y mwyafrif o achosion (72%).
- ▶ Mewn rhai achosion, mae'r ymatebion yn dangos yn glir bod canllawiau HTW wedi'u mabwysiadu a'u bod wedi cael effaith glir ar wneud penderfyniadau.
- ▶ Ar gyfer canllawiau sy'n argymhell mabwysiadu technoleg fel mater o drefn, roedd hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer [monitro glwcos fflach FreeStyle Libre](#).

- ▶ Roedd rhai achosion lle mae'n ymddangos nad oedd canllawiau HTW wedi'u mabwysiadu. Ar gyfer canllawiau sy'n argymhell defnyddio technoleg, roedd hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer [ClearGuard™](#).
- ▶ Mewn rhai achosion, rhwystrwyd mabwysiadu canllawiau gan gyfyngiadau adnoddau (nid oes cyllid ychwanegol yn cyd-fynd â chanllawiau HTW cadarnhaol) a ffactorau eraill megis niferoedd bach o gleifion, galluoedd y dechnoleg bresennol a'r defnydd presennol o gynhyrchion eraill.

Daeth yr adroddiad archwilio i'r casgliad y dylai byrddau iechyd lleol, WHSCC a'r byrddau iechyd arbenigol barhau i weithio gyda HTW i gefnogi adroddiadau archwilio mabwysiadu yn y dyfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog cyfranogiad yn y broses. Mae hefyd yn awgrymu y dylai HTW ystyried sut y gallir ymestyn y broses archwilio mabwysiadu i gynnwys canllawiau gofal cymdeithasol.

Dywedodd yr Athro Peter Groves, Cadeirydd HTW: "Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r byrddau iechyd lleol, comisiynwyr, a byrddau iechyd arbenigol am ymgysylltu mor agos â ni drwy gydol y broses archwilio."

Ychwanegodd Dr Susan Myles, Cyfarwyddwr HTW: "Rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd yn y DU ac yn rhyngwladol yn y ffordd yr ydym yn monitro effaith ein canllawiau cenedlaethol."

*"Bydd y gwaith pwysig hwn yn ein galluogi i gefnogi'r uchelgeisiau a nodir yn yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol i Gymru."*

## **Cydweithio â phartneriaid ar ddewis pynciau:**

Fel rhan o archwiliad mabwysiadu 2023 gwnaethom gynnwys tri chanllaw MTEP NICE.

Ar gyfer archwiliad mabwysiadu 2024 rydym wedi datblygu ein proses ar gyfer dewis canllawiau NICE i'w harchwilio ymhellach mewn partneriaeth ag aelodau Rhwydwaith Iechyd NICE Cymru (WNHN).

Yn y broses ddewis mae aelodau'r Rhwydwaith yn dewis tri chanllaw o restr fer o chwe chanllaw Nice, technoleg iechyd a chanllaw diagnostig.



# ARDDANGOS DEFNYDD O FEDDALWEDD AMAT I ARCHWILIO CANLLAWIAU

## Beth wnaethom?

Yn 2021 fe wnaethom ddarparu cyllid a alluogodd byrddau iechyd lleol ledled Cymru i gael mynediad at y system AMaT (Rheoli ac Olrhain Archwiliad). Gall byrddau iechyd ddefnyddio'r feddalwedd i ledaenu a monitro'r broses o fabwysiadu canllawiau Technoleg Iechyd Cymru a NICE. Mae hyn yn galluogi'r byrddau iechyd i ddarparu gwybodaeth am fabwysiadu'r canllawiau hynny ar gyfer archwiliad mabwysiadu blynyddol HTW.

## Gyda phwy?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIP Hywel Dda) yn un o saith bwrdd iechyd yng Nghymru sy'n defnyddio AMaT. Gan fod BIP Hywel Dda yn cwmpasu tair sir, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, roedd yn arbennig o bwysig sicrhau bod mynediad cyfartal at y gofal gorau sydd ar gael ar draws ardal y bwrdd iechyd. Buom yn gweithio'n agos gyda thîm effeithiolrwydd clinigol BIP Hywel Dda am ddwy flynedd i gefnogi gweithrediad AMaT.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y defnyddiodd BIP Hywel Dda AMaT i fonitro mabwysiadu canllawiau HTW a NICE gwyliwch ein fideo astudiaeth achos [yma](#).

## Beth ddysgodd pobl?

Mae defnydd AMaT gan dîm effeithiolrwydd clinigol BIP Hywel Dda wedi galluogi'r bwrdd iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau HTW a NICE. Dywedodd Donna Edwards, Cydlynnydd Effeithiolrwydd Clinigol yn BIP Hywel Dda fod hyn yn golygu y gallant fod yn "sicr fel bwrdd iechyd bod y cleifion a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu yn derbyn y gofal gorau seiliedig ar dystiolaeth."

Aeth ymlaen i ddweud bod AMaT wedi galluogi'r bwrdd iechyd i: "Ddarparu gofal diogel ac effeithiol ym mhob un o'r siroedd, gydag amrywiad cyfyngedig."

Mae'r bwrdd iechyd nawr yn gobeithio datblygu ei ddefnydd o AMaT fel ei fod yn gallu deall yn well pa fyrdau iechyd sydd wedi rhoi canllawiau HTW a NICE ar waith. Mae hefyd yn bwriadu galluogi clinigwyr i fewnbynnu gwybodaeth yn uniongyrchol i'r system.

## Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

Drwy gydweithio â BIP Hywel Dda rydym wedi cael gwell dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr y bwrdd iechyd. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu'r broses archwilio ymhellach i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y rheini sy'n cymryd rhan.



# CYMORTH TYSTIOLAETH HTW I GRWPIAU CENEDLAETHOL

## Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)

Nod HTW yw cefnogi'r broses IPFR ledled Cymru drwy ddatblygu crynodebau tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am driniaeth IPFR nad sy'n feddyginiaeth. Mae'r crynodebau tystiolaeth yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r dystiolaeth glinigol sydd ar gael i gefnogi'r defnydd o'r ymyriad y gofynnwyd amdano ac yn cynnwys crynodeb o'r ystyriaethau economaidd. Mae cynhyrchu crynodebau tystiolaeth yn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei ystyried yn gyson pan fydd paneli IPFR ledled Cymru yn pwysu a mesur effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd ceisiadau IPFR ar gyfer ariannu ymyriadau nad ydynt yn feddyginiaeth.



Mae'n wych bod unigolion erbyn hyn yn cydnabod sut mae IPFR, INNU (Ymyriadau nas cyflawnir fel arfer) a cheisiadau sydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw yn cysylltu â gwaith Technoleg Iechyd Cymru a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan. Mae mewnbyn Sophie i'r grŵp IPFR, a'r gwaith ehangach megis sicrhau ansawdd a'r digwyddiad hyfforddi blynyddol, wedi cael ei werthfawrogi'n fawr.

**Ann-Marie Matthews,**  
Arweinydd ar gyfer Comisiynu Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Cymru Gyfan (AWCEG)

Sefydlwyd AWCEG ym mis Tachwedd 2023 i sicrhau bod dull cenedlaethol ar gyfer gwella ansawdd yn digwydd ledled Cymru. Ei nod yw lledaenu arfer gorau ar draws y system gofal iechyd a sicrhau mynediad cyfartal at weithdrefnau seiliedig ar dystiolaeth.

Mae AWCEG yn seilio ei waith ar y cysyniad o ofal iechyd seiliedig ar werth sy'n hyrwyddo cyd-gynhyrchu, tegwch a lleihau amrywiadau direswm trwy ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r grŵp yn defnyddio arbenigedd HTW sy'n darparu adolygiadau cyflym o dystiolaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gan grŵp cenedlaethol.

Mae rhan o'r gwaith hwn yn ymwneud ag adolygu'r polisïau Ymyriadau Nas Cyflawnir Fel Arfer (INNU) cyfredol a gynhelir gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru a rhestr Ymyriadau ar Sail Tystiolaeth GIG Lloegr gyda'r nod o ddatblygu rhestr Cymru gyfan.

Mae HTW yn darparu rôl cefnogi tystiolaeth allweddol yn ystod y broses hon, gan arfarnu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, er mwyn llywio argymhellion AWCEG ar weithdrefnau i'w hychwanegu neu eu tynnu oddi ar y rhestr genedlaethol newydd.

Y gobaith yw y bydd dileu mynediad at ymyriadau amhriodol neu ddiangen yn rhyddhau adnoddau gwerthfawr y gellir eu defnyddio'n well yn y GIG.



Mae'n wych gweld bod gennym bellach grŵp a arweinir yn glinigol yng Nghymru sy'n ceisio lleihau amrywiadau diangen mewn gofal gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth fwyaf diweddar. Mae HTW yn chwarae rhan ganolog mewn cefnogi'r gwaith hwn drwy gyfod tystiolaeth, gan sicrhau bod yna ddull gweithredu Cymru gyfan.

**Dr Sally Lewis, Cyfarwyddwr Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru**



# UCHAFBWYNTIAU PPI 2023/24

Mae gwaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) HTW yn parhau i dyfu. Eleni mae HTW wedi ymgysylltu â rhwydweithiau a sefydliadau cleifion newydd, cynnal digwyddiadau gwreiddiol, arwain gyda phartneriaid mewn gweithgareddau PPI ledled y DU ac yn rhyngwladol a thyfu ac ehangu cylch gorchwyl PPI HTW. Mae offer a phrosesau presennol yn parhau i fod yn effeithiol a pherthnasol ac rydym yn parhau i gasglu adborth a gwella.

Crynodeb o waith PPI a wnaed:

- ▶ Cynhaliwyd gweithgaredd PPI ar gyfer 13 o bynciau
- ▶ Chwe adolygiad o lenyddiaeth, un cyflwyniad claf, dau arolwg cleifion, tysteb un claf a dau grŵp ffocws
- ▶ Cynhaliwyd cyfarfodydd PPISG i benderfynu ar fecanweithiau PPI, rhoi trosolwg o weithgareddau PPI parhaus, crynodebau iaith glir a phrosesau ac offer PPI sy'n esblygu
- ▶ Mae HTW yn parhau i gyfrannu at sesiynau Grŵp Budd Cleifion a Dinasyddion (PCIG) [INAHTA](#) (Rhwydwaith Rhyngwladol Asiantaethau ar gyfer Asesu Technoleg Iechyd). Mae gwaith presennol yn cynnwys creu rhestr wirio ar gyfer sefydliadau sydd am ddechrau PPI
- ▶ Mae Rheolwr PPI HTW wedi cyfrannu arbenigedd at waith ymgysylltu â chleifion ar dreialu eu llwybr ar gyfer technolegau arloesol [IDAP](#) (Llwybr Mynediad at Ddyfeisiau Arloesol)
- ▶ Cyflwyno gwaith PPI fel posteri yng [nghynhadledd rithwir HTAi 2023](#)
- ▶ Ymgysylltu â [Phrifysgol Caerdydd](#) gan gyflwyno panel ar sut i gynnal ymgysylltiad cleifion da mewn ymchwil

Eleni gadawodd pedwar o'n haelodau PPI hirsefydlog y Grŵp Sefydlog PPI, sef Kiana Collins, Alan Meudell, Catherine Evans-O'Brien a Louise Baker. Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cyfraniadau amhrisiadwy i'n gwaith PPI ac am yr ymrwymiad y maent wedi'i ddangos i hyrwyddo a datblygu ein prosesau ymhellach.



# GRWPIAU FFOCWS PPI HTW A CHANOLFAN GANSER FELINDRE AR DDEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL MEWN GOFAL IECHYD

## Beth wnaethom?

Gweithiodd HTW mewn partneriaeth â Chanolfan Ganser Felindre i gynnal grwpiau ffocws ar gyfer dau arfarniad lle'r oedd y dechnoleg iechyd yn ymgorffori Deallusrwydd Artiffisial (AI). Cynhaliwyd dau grŵp ffocws, un rhithwir ac un wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Ganser Felindre. Roedd y mynychwyr yn gleifion canser presennol neu flaenorol o wahanol oedrannau, ethnigrwydd a chefnidiroedd. Roedd gan y grwpiau ffocws ddau nod; sefydlu dealltwriaeth waelodlin o farn, profiadau a disgwyliadau cleifion ynglŷn â defnyddio AI mewn gofal iechyd a chasglu adborth cleifion ar y ddwy dechnoleg oedd yn cael eu harfarnu.

## Gyda phwy?

Rhwydwaith cleifion Lleisiau Felindre a thîm Profiadau Cleifion Felindre.

## Beth oedd yr ymateb?

Roedd y grwpiau ffocws yn boblogaidd ac fe'u mynychwyd gan nifer dda o bobl. Dywedodd y cyfranogwyr wrth HTW eu bod wedi mwynhau'r sesiynau a'u bod yn awyddus i gymryd rhan mewn sesiynau adborth ar ôl cwblhau'r arfarniadau tystiolaeth perthnasol. Cafodd y sesiynau dderbyniad cadarnhaol ac maent wedi helpu i gryfhau'r berthynas rhwng HTW a Felindre, addysgu cleifion ynglŷn ag asesiad technoleg iechyd a HTW ac annog cyfranogiad cleifion mewn arfarniadau sy'n mynd rhagddynt a rhai yn y dyfodol.

## Beth ddysgodd pobl?

Cafodd HTW fewnwelediadau gwerthfawr gan gleifion ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r adroddiadau PPI yn yr adolygiadau arfarnu tystiolaeth ar gyfer y ddau bwnc. Gwnaethom sefydlu bod gan gleifion syniadau tra gwahanol o'r hyn a olygir gan AI mewn gofal iechyd. Mae cleifion yn disgwyl cael gwybod am, a chydysnio i, arloesiadau megis AI yn cael eu defnyddio mewn gweithdrefnau, profion, prosesau a strwythurau y byddant yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod unrhyw gwrs triniaeth. Mae cyfathrebu da yn arbennig o bwysig gan y gellir tawelu rhan fwyaf o ofnau a phryderon cleifion ynghylch y defnydd o AI mewn gofal iechyd os cymerir amser i egluro sut mae'n gweithio, pwy sy'n gyfrifol a beth y gallant ei ddisgwyl. Nid yw llawer o gleifion yn ymwybodol o ddod i gysylltiad ag AI a lle mae technolegau AI yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn gwasanaethau gofal iechyd. Mynegodd yr holl gyfranogwyr y byddent yn hapus i gael y ddwy dechnoleg mewn cwestiynau a ddefnyddir yn ystod eu triniaethau unwaith y bydd y technolegau a rôl yr AI wedi'u hesbonio'n ddigonol iddynt.

## Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

HTW were able to gain patient experiences and evidence for the two appraisals that otherwise would have been difficult to obtain. It has ensured that patient voices, opinions, experiences and concerns inform decision making in healthcare in Wales.



Roedd gweithio gyda Technoleg Iechyd Cymru i gynnal grwpiau ffocws cleifion yn broses effeithlon a phleserus drwyddi draw. Dyma'r tro cyntaf i ni weithio mewn partneriaeth â sefydliad allanol ar gyfer prosiect fel hwn ac rydym yn falch o ddweud ei fod wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Gydag eglurder ynghylch rolau a disgwyliadau o'r cychwyn cyntaf, fe wnaethom fwynhau'n fawr gweithio gydag Alice a'i thîm i gyflwyno dau grŵp ffocws atyniadol, ysgogol ac effeithlon.

Teimlai ein cleifion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ystod y ddwy sesiwn a chawsant eu hannog i rannu eu barn, eu cwestiynau a'u heriau. Byddem wrth ein bodd yn gweithio gyda thîm HTW eto yn y dyfodol ac yn croesawu'r cyfle i gynnig pwnc mor gyffrous a diddorol i'n cleifion ei adolygu.

**Lucesca Walters, Swyddog Ymgysylltu â Chleifion a Chymorth Gwirfoddoli, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

# CYHOEDDIADAU PPI

Yn 2023/24 cyfrannodd tîm PPI HTW at y cyhoeddiadau canlynol:

- ▶ Rhoddwyd sylw i rôl Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPISG) HTW a Phartneriaid Cyhoeddus mewn erthygl yn edrych ar sut mae cyrff HTA ledled y byd yn cynnwys cynrychiolwyr cleifion ar lefel sefydliadol. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda rheolwr PPI HTW a phartner cyhoeddus a rhoddwyd drosolwg ysgrifenedig o rôl y PPISG a phartneriaid cyhoeddus yn rhaglen waith graidd HTW, gan gynnwys rhedeg y Grŵp Asesu a'r Panel Arfarnu. Cyhoeddwyd yr erthygl gyda'r International Journal of Technology Assessment in Health Care a gellir dod o hyd iddo [yma](#). Dywedodd Karen Facey, Cyngorydd PPI, Grŵp Sefydlog PPI HTW: "Mae'r papur hwn wedi denu llawer o ddiddordeb yn y gymuned HTA sy'n dangos bod gwaith HTW unwaith eto yn arwain y byd."
- ▶ Mae erthygl a ysgrifennwyd fel cyflwyniadau poster ar gyfer cynhadledd HTAi 2023 ar waith PPI HTW wedi'i chyhoeddi yn yr International Journal of Technology Assessment o dan y teitl: "The Importance Of Flexible PPI Approaches: Case Study on Flash Glucose Monitoring." Gellir dod o hyd i'r erthygl [yma](#).
- ▶ Cyfrannodd Rheolwr PPI HTW at gynhyrchu datganiad sefyllfa [INAHTA](#) (Rhwydwaith Rhyngwladol Asiantaethau ar gyfer Asesu Technoleg Iechyd) ar gynnwys cleifion a'r cyhoedd. Cyhoeddwyd y datganiad sefyllfa a gellir ei weld [yma](#). Bydd erthygl ar gynhyrchiad rhyngwladol y datganiad sefyllfa hwn trwy waith y PCIG yn cael ei chyhoeddi gyda'r International Journal of Technology Assessment.
- ▶ Gwahoddwyd HTW i ysgrifennu pennod ar gyfer yr ail lyfr ar gynnal PPI mewn HTA sydd i'w gyhoeddi yn ystod haf 2025. Gan ymdrin â dulliau unigryw HTW o gynnal PPI, bydd y bennod yn edrych ar rôl y PPISG wrth gynnal offeryn mecanwaith PPI ar gyfer pob pwnc, proses hyblyg ac ymatebol HTW ar gyfer addasu gweithgareddau PPI yn ystod arfarniad a model HTW ar gyfer arfarnu a gweithredu newidiadau yn dilyn adborth. Bydd y bennod hon yn un o sawl pennod awdurdodaethol sy'n cynnwys dulliau PPI o bob rhan o'r byd.



# CYDWEITHIO Â PHARTNERIAID YN 2023/24

Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, arloesi a'r byd academiaidd i nodi ac arfarnu pynciau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd a gofal allweddol yng Nghymru.

Drwy gydol 2023/24 gwnaethom barhau i weithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth o arloesi ac arfarnu technoleg iechyd.

Roedd y prosiectau y gwnaethom ymgysylltu â'n partneriaid yn eu cylch yn cynnwys:

## IDAP

Mae HTW yn rhan o bartneriaeth y DU gyfan a lansiodd IDAP - y Llwybr Mynediad at Ddyfeisiau Arloesol - ym mis Medi 2023.

Mae'r prosiect, a dderbyniodd £10 miliwn o gyllid gan y llywodraeth, yn cael ei redeg gan HTW, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), GIG Lloegr a Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban.

Gwnaethom weithio ar y cyd â'n partneriaid IDAP i lansio'r rhaglen beilot IDAP, gan rannu cynnwys ar draws ein gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol a gyda rhanddeiliaid yng Nghymru. Unwaith yr oedd wyth technoleg wedi'u dewis i ymuno â'r rhaglen beilot gwnaethom gyhoeddi [datganiad i'r wasg](#) ar y cyd a chytuno ar gynnwys ar gyfer postiadau cyfryngau cymdeithasol.

## Learn 2 Innovate

Fel rhan o'n gwaith adeiladu gallu HTA parhaus, gwnaethom weithio ar y cyd â rhaglen arloesi gofal iechyd myfyrwyr Learn 2 Innovate i gyflwyno hyfforddiant ar arfarnu technoleg iechyd.

Dywedodd Alexander Coombs, sylfaenydd a chyfarwyddwr rhaglen Learn 2 Innovate: "Yn Learn 2 Innovate buom yn cydweithio â Thechnoleg Iechyd Cymru i gyflwyno gweithdy rhyngweithiol ar

ddilysu technolegau iechyd. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gefnogi ac ysbrydoli myfyrwyr i ddod yn arloeswyr ym maes gofal iechyd yn y dyfodol. Rhoddodd y sesiwn gan HTW y ddealltwriaeth i fyfyrwyr y dylai technolegau newydd anelu at wella canlyniadau cleifion a bod yn gost-effeithiol, a dylid ystyried y ddau yn ystod camau cynnar syniad am dechnoleg iechyd. Mwynhaodd y myfyrwyr y sesiwn a chafwyd adborth ardderchog, a gobeithiwn barhau â'n perthynas â HTW yn y dyfodol."

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Rydym wedi parhau i gynhyrchu adolygiadau cyflym o dystiolaeth ar bynciau iechyd a gofal â blaenoriaeth fel partner cydweithredol Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Penodwyd HTW yn bartner cydweithredol i'r ganolfan ar ôl gweithio'n flaenorol fel partner cydweithredol i Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru.

## Lledaenu'r gair

Fel rhan o'n gwaith parhaus i gynyddu dealltwriaeth am ein rôl a'r broses asesu technoleg iechyd, gwnaethom gynhyrchu cyfres o adnoddau gyda'r nod o esbonio'r hyn rydym yn ei wneud a pham.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- [Cyfres o animeiddiadau](#) yn egluro'r broses arfarnu pwnc a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno pwnc i'w arfarnu
- [Fideos astudiaethau achos](#) am ganllawiau yr ydym wedi'u cyhoedd
- [Dogfen Cwestiynau Cyffredin](#) am ein gwaith a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno pwnc
- [Arweiniad i'r Broses Arfarnu](#) sydd hefyd ar gael mewn fformat iaith glir

## Cyfarfodydd pwyllgor ymgynghorol a gynhaliwyd

- 6 Paneli Arfarnu
- 13 Grwpiau Asesu
- 2 Fforymau Rhanddeiliaid
- 1 Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant
- 4 Grwpiau Gweithredol
- 4 Grwpiau Sefydlog PPI

## Gwefan

- 15132 Edrychiadau tudalennau gwe
- 9334 Ymwelwyr

## Cyfryngau cymdeithasol

- 2736 Dilynwyr
- 208 Postiadau LinkedIn a thrydardiadau
- 1307 Ymgysylltiadau
- 42,616 Argraffiadau
- 365 Cliciau dolenni
- 489 Hoffiadau ac ail-drydar

# EIN RÔL FEL PARTNER CYDWEITHREDOL CANOLFAN DYSTIOLAETH YMCHWIL IECHYD A GOFAL CYMRU

## Drwy gydol 2023/24 rydym wedi parhau i gynnal adolygiadau cyflym o dystiolaeth fel Partner Cydweithredol Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW).

Cafodd y ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ei sefydlu i sicrhau bod penderfyniadau am bolisiâu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu gwneud gan ddefnyddio canfyddiadau'r ymchwil mwyaf diweddar.

Ei nod yw canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

- Nodi bylchau mewn gwybodaeth yn ymwneud â pholisi ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Ateb cwestiynau ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth yn gyflym a gyda methodoleg gadarn
- Sefydlu rhwydwaith rhwng y Ganolfan a sefydliadau polisi ac arfer allweddol megis Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r GIG
- Gweithio'n agos gyda'r cyhoedd yng Nghymru
- Adolygu'r dystiolaeth ymchwil sydd ar gael lle bo modd
- Cynnal ymchwil newydd lle mae dystiolaeth yn brin

Fel Partner Cydweithredol, mae HTW yn cynnal adolygiadau cyflym o dystiolaeth ar ystod eang o bynciau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran y Ganolfan Dystiolaeth. Yn 2023/2024 gweithiodd HTW ar yr adolygiadau cyflym o dystiolaeth canlynol ar y cyd â Chanolfan Dystiolaeth Cymru:

- ▶ **Ffactorau prognostig ar gyfer newid mewn iechyd llygaid neu olwg: Adolygiad cyflym**
- ▶ **Mesur iechyd meddwl mewn argyfwng costau byw: Adolygiad cyflym**
- ▶ **Ffactorau sy'n gysylltiedig â gordewdra neu fod dros bwysau plentyndod mewn plant o dan bump oed: Adolygiad cyflym**

Roedd y tîm yn gweithio ar yr Adroddiad Gordewdra Plentyndod ar adeg ei gyhoeddi. Mae dros chwarter y plant pedair i bump oed yng Nghymru naill ai dros bwysau neu'n ordew. Gall plant sydd dros bwysau neu'n ordew gael problemau iechyd yn ystod plentyndod neu'r glasod. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew pan fyddant yn oedolyn, a all achosi problemau iechyd cysylltiedig. Nod y gwaith hwn yw llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r ffactorau cysylltiedig â gordewdra neu fod dros bwysau ymhlith plant dan bump oed.

Mae partneriaid sy'n cydweithredu yn cydweithio'n agos ag arweinwyr yn Llywodraeth Cymru, y GIG a gofal cymdeithasol i sicrhau bod y Ganolfan Dystiolaeth yn mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth allweddol a blaenoriaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ganolfan yn adeiladu ar lwyddiant Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a oedd yn hollbwysig wrth lywio'r gwaith o reoli ac adfer wedi'r pandemig ac a ddangosodd pa mor hanfodol yw tystiolaeth ymchwil i gefnogi gwneud penderfyniadau am iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n defnyddio'r sgiliau, y rhwydweithiau a'r dulliau a ddatblygwyd gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru i gyflawni ei gwaith.

Mae rhaglen waith ddiweddaraf y Ganolfan Dystiolaeth i'w gweld yma.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy gofrestru ar gyfer bwletin Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.



Fel Canolfan, rydym yn darparu tystiolaeth ymchwil i arweinwyr y GIG a Gofal Cymdeithasol Cymru ac i Weinidogion i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan Technoleg Iechyd Cymru, fel partner cydweithredol, rôl sylfaenol yn y gwaith o gyflawni'r ymchwil hwn i lywio anghenion polisi ac ymarfer yng Nghymru.

**Yr Athro Edwards,**  
**Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

# CODI EIN PROFFIL

Buom yn arddangos mewn cynadleddau a digwyddiadau ledled y DU ac yn rhyngwladol yn ystod 2023/24, gan gyfarfod â rhanddeiliaid a darpar gynigwyr pwnc a lledaenu'r gair am ein gwaith.

Mae digwyddiadau rydym wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

## Mehefin 2023: Sioe Deithiol Gofal Cymdeithasol

Gwnaethom arddangos yn Sioe Deithiol Ymchwil Gofal Cymdeithasol a drefnwyd gan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) mewn partneriaeth ag [Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#). Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ofal a chymorth i bobl hŷn ac roedd yn gyfle pwysig i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith yn arfarnu technolegau gofal nad ydynt yn feddyginiaeth ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.



## Mehefin 2023: HTAi

Mynychodd ein Hymchwilydd Gwasanaethau Iechyd Charlotte Bowles gynhadledd [HTAi 2023](#) yn Adelaide, Awstralia, lle cyflwynodd bapur ar Addasiad HTA: Biopsïau Pharyngolaryngeal (OLB) ar gyfer Pobl ag Amau Canser y Pen a'r Gwddf mewn Lleoliad Cleifion Allanol.

## Mehefin 2023: MediWales Connects 2023

Cynhaliodd HTW stondin arddangos yn y digwyddiad a rhoddodd y Prif Ymchwilydd Matthew Prettyjohns gyflwyniad. Roedd [MediWales Connects](#), cynhadledd ar y cyd rhwng y GIG Cymru gyfan, yn cynnwys araith allweddol gan Judith Paget CBE, Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfarfu cydweithwyr y GIG o bob rhan o Gymru â chynrychiolwyr sector y diwydiant i rannu syniadau ar arloesi clinigol.



## Gorffennaf 2023: Cynhadledd Comisiwn Bevan - Trawsnewid Dyfodol Iechyd a Gofal Gyda'n Gilydd

Roedd y digwyddiad hwn yng ngofal [Comisiwn Bevan](#), a gynhaliwyd i nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r GIG, yn canolbwyntio ar greu model cynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal ac yn cynnwys sgysiau gan siaradwyr cenedlaethol a rhyngwladol blaenllaw. Fe wnaethom arddangos yn y digwyddiad ochr yn ochr â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol o bob rhan o Gymru.

## Hydref 2023: Arddangosfa MediWales

Gwnaethom arddangos yn arddangosfa flynyddol [MediWales](#) lle daeth aelodau o sector gwyddorau bywyd ffyniannus Cymru ynghyd i rannu newyddion am eu prosiectau diweddaraf.



## Hydref 2023: Cynhadledd Technoleg Iechyd ABHI y DU

Roeddem yn falch iawn o allu cymryd rhan yng nghynhadledd flynyddol [Cymdeithas Diwydiannau Technoleg Iechyd Prydain](#). Yn ystod y digwyddiad gwnaethom gyfarfod â gweithgynhyrchwyr technoleg iechyd a chynigwyr pynciau posibl yn ogystal â manteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r [Gwasanaeth Cyngor Gwyddonol](#) a gynigir gan HTW.

## Tachwedd 2023: Cynhadledd NICE

Daeth cynhadledd undydd y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#) â staff rheng flaen ac arweinwyr o faes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â'r sectorau gwyddorau bywyd, technoleg iechyd a digidol. Roedd yn canolbwyntio ar ddatgelu sut mae NICE yn trawsnewid i ddarparu canllawiau mwy perthnasol, amserol a defnyddiadwy.

## Mawrth 2024:

Rhoddodd Cynhadledd Gwyddor Iechyd Cymru, a drefnwyd gan [Bwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru](#) gyfle i ni arddangos ein gwaith i gynulleidfa amrywiol o arbenigwyr, ymarferwyr, athrawon prifysgol a myfyrwyr gwyddor iechyd.



# SAFBWYNT BYD-EANG

Drwy gydol 2023/24 rydym wedi parhau i gydweithio â'n partneriaid rhyngwladol i rannu gwybodaeth a mewnwleidiadau ar asesu technoleg iechyd a nodi pynciau i'w harfarnu.

## EHANGU CYDWEITHREDIAD HTA YN RHYNGWLADOL

Ym mis Medi 2023 gwnaethom gyhoeddi ehangiad cydweithrediad rhwng chwe chorff HTA o bob rhan o'r DU, Awstralia a Chanada.

Ymunodd [Institut national d'excellence en santé et en services sociaux \(INESSS\)](#), Quebec a [Pharmac, New Zealand](#) â'r cydweithrediad sydd bellach yn cynnwys:

- [Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#)
- [Asiantaeth Canada ar gyfer Cyffuriau a Thechnolegau mewn Iechyd \(CADTH\)](#)
- [Adran Iechyd a Gofal Henoed Llywodraeth Awstralia](#)
- [Gwella Gofal Iechyd yr Alban, Consortiwm meddyginiaethau yr Alban \(SMC\) a Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban \(SHTG\)](#)
- [Technoleg Iechyd Cymru \(HTW\)](#)
- [Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan \(AWTTC\)](#)
- [Institut National D'Excellence En Santé Et En Services Sociaux \(INESSS\)](#)
- [Pharmac, Seland Newydd](#)

Amcangyfrifir y gallai'r cydweithio fod o fudd i dros 134 miliwn o bobl ledled y byd. Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau partner yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol:

**Rhannu gwaith:** Archwilio ymarferoldeb rhannu gwaith i gefnogi gwneud penderfyniadau HTA

**Sganio'r gorwel:** Nodi a pharatoi ar gyfer cyfleoedd a heriau'r dyfodol

**Datblygu gwyddorau a dulliau:** Cydweithio ar wyddorau a dulliau i wneud y defnydd gorau o sgiliau ac arbenigedd o fewn y sefydliadau partner.

## INISA

Ym mis Hydref roeddem yn falch o gyhoeddi bod ein Cyfarwyddwr, Dr Susan Myles, wedi'i phenodi i ymuno â bwrdd cyfarwyddwyr INSIA (Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Asesu Ymyrraeth Gymdeithasol). Mae hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad HTW i nodi ac arfarnu technolegau a modelau gofal arloesol i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel rhan o'n partneriaeth ag INISA rydym wedi ymuno â grŵp o gydweithwyr rhyngwladol a fydd yn cynllunio strategaeth a gweithgareddau cyfathrebu INSIA.



# EIN TÎM

Mae'r gwaith yn yr adroddiad blynyddol hwn wedi'i gyflawni gan dîm Technoleg Iechyd Cymru.

Mae 28 o bobl yn rhan o'n tîm, sy'n cynnwys ymchwilwyr gwasanaethau iechyd, economegwyr iechyd, arbenigwyr gwybodaeth, arbenigwyr cyfathrebu, rheolwyr prosiect a gweinyddwyr.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 roedd hi'n bleser gennym groesawu dau Uwch Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd newydd ac Uwch Economegydd Iechyd i'n tîm.

Rydym yn dod o ystod eang o gefndiroedd gydag amrywiaeth o setiau sgiliau a gyda'n gilydd mae gennym brofiad helaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Cefnogir y tîm gan gyfraniadau amhrisiadwy ein haelodau pwyllgor allanol sy'n parhau i sicrhau bod ein gwaith yn diwallu anghenion y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



**Yr Athro Peter Groves**  
Cadeirydd



**Dr Susan Myles**  
Cyfarwyddwr



**Lisa King**  
Uwch Reolwr Rhaglen



**June Price**  
Rheolwr Gweithrediadau Busnes



**Katie McDermott**  
Rheolwr Prosiect



**Rebecca Shepherd**  
Rheolwr Cymorth Prosiect



**Alice Evans**  
Rheolwr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd



**Elise Hasler**  
Arbenigwr Gwybodaeth



**Jenni Washington**  
Arbenigwr Gwybodaeth



**Matthew Prettyjohns**  
Prif Ymchwilydd, Economeg Iechyd



**Dr David Jarrom**  
Prif Ymchwilydd, Ymchwil Gwasanaethau Iechyd



**Jessica Williams**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Dr Claire Davis**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Dr Clare England**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Leona Batten**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Hayley Bennet**  
Economegydd Iechyd



**Sophie Hughes**  
Uwch Economegydd Iechyd



**Mafalda Gordo**  
Cynorthwydd Cymorth Busnes a Chyfathrebu



**Dr Greg Hammond**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Antonia Needham**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Charlotte Bowles**  
Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Rebecca Boyce**  
Economegydd Iechyd



**Diana Milne**  
Rheolwr Cyfathrebu



**Llinos Jones**  
Cyfieithydd Cymraeg



**Caron Potter**  
Cynorthwydd Gweithredol



**Dr Sian Cousins**  
Uwch Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd



**Ryan Miller**  
Uwch Economegydd Iechyd




**Nathan Bromham**  
Uwch Ymchwilydd Gwasanaethau Iechyd

# CYFLAWNI AR Y GYLLIDEB

Mae HTW yn cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2021-2025 sy'n nodi ein nodau ac amcanion strategol uniongyrchol a thymor canolig.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £1.5 miliwn i ni ar gyfer 2023-2024 er mwyn ariannu ein gwaith craidd. Sicrhodd HTW incwm ychwanegol gwerth £130,000 i ariannu ei waith fel partner cydweithredol Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a dwy flynedd o gyllid grant i'w gynorthwyo i gymryd rhan yn Nyfarniad Deallusrwydd Artiffisial y GIG fel rhan o Dîm Arfarnu Penodol Technoleg (TSET).



Adrodd tanwariant cymedrol hyd yma, oherwydd oedi wrth recriwtio. Ar darged i gyflawni o fewn y gyllideb yn ystod Blwyddyn Ariannol 24/25.



Cefnogi **25.3** o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chyfanswm cyfrif pennau o **28**.



Dyrannu ein cyllideb i **87%** o gostau staff a **13%** o gostau nad ydynt yn gostau staff.



**Dyfarniad pum mlynedd** wedi ei sicrhau ym mlwyddyn ariannol 23/24 i weithredu fel cydweithredwr yn y Ganolfan Dystiolaeth Cymru newydd.

---

**Ydych chi'n gwybod am dechnoleg neu fodel gofal  
a chymorth ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol  
y gallai HTW ei arfarnu? Gall unrhyw un awgrymu  
pwnc i'w arfarnu. I gymryd rhan ewch i'n gwefan.**

---



**Technoleg Iechyd Cymru**  
**Health Technology Wales**

**[healthtechnology.wales](https://healthtechnology.wales)**

Technoleg Iechyd Cymru (HTW), Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Uned 2 Cwrt Charnwood,  
Parc Nantgarw, CF15 7QZ, Y Deyrnas Unedig